

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 7fed 2021 am 6.30yh trwy Zoom (Dechreuodd am 6.33yh er mwyn i bawb ymuno)

Presennol: Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle, Rhys Thomas, Catherine Jones, Roy Tickle, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Philip Stevens, Dyfrig Berry, Glenn Swingler, Alyn Ashworth, Sylvia Jennings, Carla Hargreaves & Ruth Griffiths; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig a Digwyddiadau).

Arsylwi: Lynn Thomas, Cyng Meirick Lloyd Davies, Cyng Peter Scott, Cyng Diane King, Cyng Rhian Jones, Cyng Heather Williams, Norma Rowles & Y Parch Graham Floyd.

- 1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer am y noson, Norma Rowles
- 2 **Ymddiheuriadau:** Dim

Dangoswyd eitemau agenda 3,4,5,6 ac 8 ar fideo gyda saib yn eitem 5 ac 8 ar yr agenda ar gyfer y cais gwrthgynnig.
- 3 **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Gaynor Wood Tickle adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2020/2021 a diolchodd i'r Dirprwy Faer a'r Faeres am eu cefnogaeth ynghyd â Chlerc y Dref a'r Cynorthwydd Dinesig a Digwyddiadau.
- 4 **Cyflwyniadau gan y Maer y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle:** Dywedodd y Maer nad oedd wedi bod yn bosibl gwneud unrhyw godi arian oherwydd cyfyngiadau Covid, felly bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod y mis nesaf ac y byddai sic yn cael ei hanfon at ei helusennau maes o law.
- 5 **Ethol Maer am y Flwyddyn 2020-2021:** Cynigiodd y Cyng Glenn Swingler, eiliwyd gan y Cyng Alyn Ashworth a phenderfynodd ethol y Cyng Rhys Thomas yn Faer Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021/2022. Nid oedd unrhyw gwrth gynnig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Rhys Thomas y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.
- 6 **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Rhys Thomas bleidlais o ddiolch i'r Maer yn ymdeol a chyflwynodd Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Maer i gofio am ei 2 blwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i Mr Roy Tickle i gofio am ei 2 flwyddyn yn y swydd.

Ymunodd y Cyng Sylvia Jennings â'r cyfarfod am 6.44yh.
- 7 **Anerchiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd ei Gynigydd a'i Eiliwr ac anerchodd y Cyfarfod. Dywedodd y Maer y Cyng Rhys Thomas mai ei elusennau ar gyfer 2021/2022 fydd DASU (Cefnogaeth i Fenywod) a WCDYC (Elusen Gofalwyr Ifanc)
- 8 **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigiodd y Cyng Gaynor Wood Tickle, eiliwyd gan y Cyng Rhys Thomas a phenderfynodd ethol y Cyng Catherine Jones yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021/2022. Nid oedd unrhyw gwrth gynnig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Catherine Jones y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.

Ymunodd y Cyng Alyn Ashworth â'r cyfarfod am 6.49yh.

- 9 **Dychweliad Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2020/2021:** Cyfeiriodd y Maer at y presenoldeb ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2020/2021. Mabwysiadwyd a nodwyd.
- 10 **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parch Graham Floyd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021/2022
- 11 **Sul Dinesig :** Cyhoeddodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal ddydd Sul y 4ydd Gorffennaf yn dibynnu ar reoliadau cyfredol y Covid.
- 12 **Cynllun Iles:** Nodwyd hyn
- 13 **Y Fendith:** I ddod â'r noson i ben, rhoddodd Caplan y Maer y Parch Graham Floyd y Fendith.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 7.01yh.

Llofnod:.....

Dyddiad:.....